Ilythyr newyddion

LLAIS SIR GÂR

Carmarthenshire Voice

Llais Sir Gâr

A'R ENILLYDD YW....

Diolch i bawb a gyfrannodd at ein harolwg diwethaf. Mae cwblhau'r arolygon yn cymryd amser, ac mae'r ymatebion rydym wedi eu derbyn yn dangos yn glir eich bod wedi rhoi ystyriaeth ddwys i bob cwestiwn.

I ddangos ein bod yn gwerthfawrogi eich ymdrechion ac i ddiolch ichi, rydym yn cynnwys pob un o'r arolygon a ddychwelir mewn raffl fawr. Tynnwyd y raffl ar gyfer Arolwg 20 yn ddiweddar; daw'r enillydd o ardal **Llanymddyfri** ac erbyn hyn mae **£50 yn gyfoethocach!**

Sicrhewch eich bod yn cwblhau Arolwg 21 (yn amgaeëdig) i gael cyfle i ennill y tro nesaf.

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

'Y Gwaith'

Gan weddnewid safle hen waith tun yn Llanelli, bydd 'Y Gwaith' yn ganolfan ysblennydd newydd sbon ar gyfer diwylliant a'r celfyddydau, a hynny mewn adeilad modern a chyfoes ei bensaernïaeth.

Ym mis Hydref cyhoeddwyd bod 'Y Gwaith', o blith y 23 yn y rownd derfynol, wedi cyrraedd rhestr fer derfynol y Rhaglen Creu Cof Byw (a noddir gan y Gronfa Loteri Fawr). 'Y Gwaith' yw'r unig brosiect yng Nghymru i gyrraedd cyn belled â hyn.

Dywedodd 40.1% ohonoch eich bod wedi clywed am 'Y Gwaith', a dywedodd dwy ran o dair ohonoch (70.4%) y byddech chi fel teulu neu fel aelod o fudiad yn ymweld â'r 'Gwaith' ac yn mynd i ddigwyddiadau yno. Roedd 86% ohonoch yn barnu bod codi 'Y Gwaith' yn Sir Gaerfyrddin yn cymell pobl i gymryd mwy o ran ym myd y celfyddydau.

Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor Sir yn dechrau llunio Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) i gymryd lle'r Cynllun Datblygu Unedol (CDU) a fabwysiadwyd yn 2006. Gan gymryd golwg gytbwys ar ddatblygiadau newydd, bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio darparu tai newydd, neilltuo tir at ddibenion cyflogaeth, ac ymateb i'r galw am dir ar gyfer datblygiadau masnachol a hamdden newydd, gan geisio sicrhau ar yr un pryd fod yr amgylchedd a lles pobl yn cael eu gwarchod.

Rhoesom restr o flaenoriaethau i chi ar gyfer y cynllun, gan ofyn i chi eu rhestru yn nhrefn blaenoriaeth. Ar sail y blaenoriaethau a gafodd '1' gennych, h.y. 'y flaenoriaeth bwysicaf', roedd eich ymatebion fel a ganlyn:

1. Gwarchod cefn gwlad
2. Darparu tai newydd
3. Neilltuo safleoedd at ddibenion cyflogaeth
4. Ehangu canol trefi
5. Ehangu parciau manwerthu ar gyrion y trefi

Cludiant

Mae Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cael ei lunio gan SWWITCH, sef Consortiwm Cludiant Integredig De-orllewin Cymru, sy'n cynrychioli Dinas a Sir Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.

Pan ofynnwyd i chi pa mor aml rydych yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar hyn o bryd, roeddech wedi dweud:

Bob dydd bron	6.2%
Rhyw unwaith neu ddwy'r wythnos	11.6%
Tuag unwaith y mis	14.2%
Bob rhyw chwe mis	13.4%
Yn llai aml	16.6%
Byth	38.1%

O ran y rheiny yn eich plith nad oeddech chi byth yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, gofynnwyd pam nad oeddech yn gwneud hynny, a chafwyd yr ymatebion canlynol:

- Eich bod yn gyrru car neu fod gennych gar (a bod hynny'n fwy cyfleus, yn fwy hyblyg, yn gyflymach ac yn rhatach yn eich barn chi)
- Bod trafnidiaeth gyhoeddus yn anghyfleus (bod y siwrneiau yn rhy faith a bod yr amserau, yn fynych, yn gwbl anghyfleus i fynd yn ôl ac ymlaen i'r gwaith)
- Bod gennych anabledd a bod prinder trafnidiaeth gyhoeddus a allai ddiwallu eich anghenion (cyfeiriodd nifer llai at ffactorau oedran neu iechyd)

Yn bennaf roeddech yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i fynd yn ôl ac ymlaen i gyfleusterau siopa yng nghanol dinas (31.5%), mynd i'r siopau lleol (25.9%), mynd ar wyliau byr (19%) ac ymweld ag ysbyty lleol (13.7%).

Roeddem wedi gofyn pa gamau gweithredu fyddai'n **fwyaf buddiol** o ran ei gwneud hi'n fwy hwylus i bobl a nwyddau fynd o le i le yn eich ardal leol chi, ac yna wedi gofyn i chi ddewis un peth o blith rhestr o gamau gweithredu. Roeddech wedi dweud – ***'Cynyddu'r rhwydwaith trenau'***.

Roeddem wedi gofyn pa gamau gweithredu fyddai'n **fwyaf buddiol** o ran lleihau effaith trafnidiaeth ar yr amgylchedd yn eich ardal leol chi, ac yna wedi gofyn i chi ddewis un peth o blith rhestr o gamau gweithredu. Roeddech wedi dweud – ***'gwella trafnidiaeth gyhoeddus'***.

Roeddem wedi gofyn pa gamau gweithredu fyddai'n **fwyaf buddiol** o ran gwneud trafnidiaeth yn fwy diogel yn eich ardal leol chi, ac yna wedi gofyn i chi ddewis un peth o blith rhestr o gamau gweithredu. Roeddech wedi dweud – ***'buddsoddi mewn cynlluniau arafu traffig megis rampiau arafu a therfynau cyflymder'***, fodd bynnag, yn dynn wrth sodlau hyn oedd ***'Gosod rhagor o systemau teledu cylch cyfyng mewn gorsafoedd bysiau neu drenau'***.

Pan ofynnwyd, 'Beth, os oes unrhyw beth, fyddai'n eich cymell chi i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn amlach?' eich 3 phrif reswm oedd:

1) Darparu gwasanaeth amlach
2) Gostwng y prisiau a darparu cynigion/cynlluniau cymell
3) Llwybrau mwy cynhwysfawr a gwell amserlenni.

Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles i Sir Gaerfyrddin 2008-2011

Mae'r strategaeth hon yn cael ei harwain ar y cyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin a Bwrdd Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin, ac mae'n amlinellu'r cynlluniau ar gyfer gwella iechyd a lles yr holl bobl yn y Sir. Mae'r ail Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles i Sir Gaerfyrddin am y cyfnod rhwng 2008 a 2011 yn cael ei llunio ar hyn o bryd, a bydd yn diweddaru'r strategaeth bresennol a ddaw i ben ym mis Mawrth 2008.

Y weledigaeth gyffredinol, fel y'i hamlinellwyd yng Nghynllun Cymunedol y Cyngor, yw "Teimlo'n Dda... Mynd i'r afael ag achosion afiechyd drwy edrych ar bob agwedd ar fywyd", ac roedd cyfran helaeth iawn ohonoch (95.9%) yn barnu y dylai'r weledigaeth gyffredinol aros fel y mae ar gyfer y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles i Sir Gaerfyrddin am 2008-2011. Ar ôl adolygu'r rhestr bresennol o feysydd blaenoriaeth, roeddem wedi gofyn a oedd hi'n briodol i gadw'r meysydd blaenoriaeth hynny, ac, unwaith eto, roedd cyfran helaeth iawn ohonoch (94.3%) yn barnu bod hynny'n briodol.

Yna roeddem wedi gofyn i chi bwyso a mesur y meysydd blaenoriaeth, a dewis y pum prif flaenoriaeth ar gyfer gwella'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin. Ar sail y blaenoriaethau a gafodd '1' gennych, h.y. 'Y rhai pwysicaf', roeddech wedi cyfeirio at y blaenoriaethau canlynol:

1. Gwella iechyd drwy fynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi salwch
=2. Gwella argaeledd ac ansawdd gwasanaethau cymorth i bobl hŷn
=2. Rhoi cymorth i blant a phobl ifanc, yn enwedig plant mewn angen
=3. Gwella argaeledd ac ansawdd tai a gwasanaethau cymorth
=3. Hybu a gorfodi safonau uchel o ran iechyd a diogelwch

Manylir ar y canlyniadau llawn yn y tabl isod:

	1 = y flaenoriaeth bennaf	2	3	4	5 = y flaenoriaeth leiaf
Gwella iechyd drwy fynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi salwch	69%	12%	7%	6%	6%
Hybu a gorfodi safonau uchel o ran iechyd a diogelwch	12%	40%	14%	19%	16%
Rhoi cymorth i blant a phobl ifanc, yn enwedig plant mewn angen	15%	25%	24%	18%	17%
Gwella argaeledd ac ansawdd tai a gwasanaethau cymorth	12%	24%	25%	17%	21%
Gwella argaeledd ac ansawdd y gwasanaethau cymorth i bob gofalwr gan gynnwys gofalwyr ifanc	10%	28%	22%	22%	17%
Gwella argaeledd ac ansawdd y gwasanaethau cymorth i bobl hŷn	15%	20%	26%	21%	18%
Gwella argaeledd ac ansawdd y gwasanaethau cymorth i oedolion ag anghenion iechyd meddwl	7%	12%	25%	34%	23%
Gwella argaeledd ac ansawdd y gwasanaethau cymorth i bobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau	9%	13%	20%	28%	29%
Gwella argaeledd ac ansawdd y gwasanaethau cymorth i bobl ag anableddau dysgu	1%	10%	18%	32%	39%
Gwella argaeledd ac ansawdd y gwasanaethau cymorth i bobl ag anabledd corfforol a / neu nam synhwyraidd	5%	10%	23%	25%	37%
Gwella argaeledd ac ansawdd y gwasanaethau cymorth i oedolion ag anghenion iechyd meddwl	8%	18%	21%	22%	32%

Bydd y strategaeth **ddrafft**, a fydd ar gael i ymgynghori yn ei chylch rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2007, yn cynnwys dadansoddiad manylach o'r cynnydd hyd yn hyn, ynghyd â chrynodeb o'r anghenion iechyd a'r cynlluniau penodol. Gall y sawl sydd am roi sylwadau manwl ar y fersiwn drafft o'r ***'Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles i Sir Gaerfyrddin 2008-2011'*** naill ai:

1) Cysylltu â'r Dr Brickchand S. Ramruttun PhD MSc RNMH drwy ffonio 01267 228777
2) Mynd i wefan Cyngor Sir Caerfyrddin drwy ddefnyddio'r ddolen gyswllt ganlynol: http://www.carmarthenshire.gov.uk/eng/index.asp?locID=8613&docID=-1
3) Neu ymateb i C63 yn yr arolwg amgaeedig drwy nodi eich bod am gael copi papur drwy'r post.

GWEITHREDU

Y Gwaith
Mae ymgynghori â'r Panel Dinasyddion ynghylch 'Y Gwaith' yn rhan yn unig o ymgynghoriad mawr iawn. Mae ymgynghoriad helaeth wedi bod ar waith ledled y sir ac mewn awdurdodau cyfagos, gan geisio barn pobl o bob oedran a grwpiau o ddefnyddwyr er mwyn sicrhau taw'r ganolfan newydd gyffrous hon yw'r hyn sydd ei angen ar y gymuned. Mae'r gefnogaeth yn y gymuned i'r prosiect hwn wedi bod yn rhyfeddol.

Ar 6ed Tachwedd bydd Bwrdd y Loteri Fawr yn cyfarfod unwaith eto yn Llundain pryd y bydd cyfle i bob un o'r prosiectau roi cyflwyniad gerbron y bwrdd am 15 munud. Bydd y penderfyniad yn cael ei wneud ar 10fed Tachwedd!

Cludiant
Y bwriad yw rhoi'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol gerbron Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Mawrth 2008, gan gymryd lle'r Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol a luniwyd yn 2000. Bydd eich atebion i'r cwestiynau hyn yn ein helpu ni i bennu'r blaenoriaethau ar gyfer y Cynllun newydd hwn.

Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles i Sir Gaerfyrddin 2008-2011
Consultation on the Health, Social Care and Well-Being Strategy is on-going, we will update you on progress at the end of the consultation period.

HEDDLU DYFED-POWYS

Pan ofynnwyd i chi a oeddech yn adnabod logo/bathodyn Heddlu Dyfed-Powys, roedd cyfran helaeth iawn ohonoch (93.8%) yn ei adnabod. Roedd y rhan fwyaf ohonoch wedi ei weld ar helmedau a lifrai'r heddlu.

Yna roeddem wedi gofyn a oeddech yn barnu y dylai Heddlu Dyfed-Powys gael logo arall ochr yn ochr â'r bathodyn milwrol presennol, dim ond 5.2% ohonoch oedd yn cytuno, ac roedd 94.8% ohonoch yn anghytuno.

Roedd ychydig yn fwy na'ch hanner chi (55.3%) wedi dweud eich bod yn gyfarwydd â datganiad gweledigaeth Heddlu Dyfed-Powys 'Diogelu Ein Cymuned' ac, unwaith eto, roedd mwy na'ch hanner chi (59.4%) yn meddwl bod hynny yn berthnasol. (Mae rhagor o ganlyniadau isod). Roedd mwy na dwy ran o dair ohonoch (68.4%) wedi dweud bod perfformiad Heddlu Dyfed-Powys yn gyson â'i weledigaeth

A ydych chi'n barnu bod datganiad gweledigaeth Heddlu Dyfed-Powys sef 'Diogelu Ein Cymuned' yn berthnasol?

Ydwyf	59.4%
Nac ydwyf	6.5%
Wn i ddim	19.4%
Dim barn	14.7%

Cynllun Iaith Gymraeg

Ers Ionawr 24ain 2007 mae gan Heddlu Dyfed-Powys ac Awdurdod yr Heddlu Gynllun Iaith Gymraeg ar y cyd, a gellir ei ddarllen ar y wefan (www.dyfed-powys.police.uk). Mae'r ymagwedd at ddefnyddio Cymraeg a Saesneg yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- Bod gan y Gymraeg a'r Saesneg statws cydradd
- Gwella'r gwasanaeth i'r cyhoedd yn Gymraeg ac yn Saesneg - yn ôl eu dewis

Byddant yn mabwysiadu'r strategaethau canlynol i ategu'r uchod:

- Cynllun Iaith Gymraeg sy'n seiliedig ar lwyddiant y gorffennol ac sy'n edrych i'r dyfodol.
- Hybu gweithleoedd dwyieithog er mwyn cynyddu hyder y staff i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Bod yr holl staff newydd yn cael eu cymell i ddysgu rhywfaint o eiriau ac ymadroddion sylfaenol yn Gymraeg i amlygu cwrteisi ieithyddol.
- Gweithio tuag at ddarparu dewis o ran iaith yn y prosesau recriwtio a phenodi
- Annog a chefnogi'r staff i ddysgu Cymraeg neu i wella eu medrusrwydd o ran y Gymraeg.
- Clustnodi swyddi lle mae angen lefel benodol o allu yn y Gymraeg.
- Gweithio tuag at ddarparu dewis o ran iaith yn y mannau cyswllt cyntaf â'r cyhoedd, megis derbynfeydd a chownteri cyhoeddus, y ganolfan alwadau a'r dalfeydd.

Roeddem wedi gofyn i chi ….'Cyn cael yr holiadur hwn a oeddech yn gwybod bod gan Heddlu Dyfed-Powys ac Awdurdod yr Heddlu Gynllun Iaith Gymraeg?'. Roedd 47.1% ohonoch wedi dweud eich bod yn gwybod ac roedd ychydig yn fwy na'ch hanner chi (56%) wedi dweud bod cael dewis o ran iaith yn bwysig i chi.

Gofynnwyd i'r rhai a oedd wedi cysylltu â Heddlu Dyfed-Powys / ymdrin ag Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys a oeddynt wedi gofyn am gael gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg neu a oeddynt wedi cael cynnig hynny. Roedd mwy nag un rhan o dair (34.5%) o'r bobl oedd wedi cysylltu wedi cael cynnig gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ac roedd 8% arall wedi gofyn am wasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

O ran beth yr hoffent ei ***gael*** a beth y byddent yn disgwyl cael ei gynnig yn ddwyieithog neu'n Gymraeg, yn y ddau achos roedd y niferoedd mwyaf ohonoch yn teimlo **'y dylai'r holl wasanaethau gael eu cynnig'.**

Mynediad i wybodaeth

Gofynnwyd i chi sut y byddai'n well gennych gael gwybod am y gwasanaethau sydd ar gael gan Heddlu Dyfed-Powys, ac roeddech wedi dweud:



Roedd 12.4% ohonoch wedi cael anawsterau wrth gysylltu â Heddlu Dyfed-Powys. Roedd hynny'n bennaf am eich bod yn dweud nad oeddech yn gallu cysylltu â'ch gorsaf leol neu swyddogion lleol yn uniongyrchol.

Roedd 4.6% ohonoch wedi dweud y byddech chi, neu aelod o'ch teulu, neu ffrindiau am gael gwybodaeth ar ffurf arall e.e. Braille neu brint bras. Dim ond 0.7% ohonoch oedd wedi dweud eich bod wedi gofyn am wybodaeth gan Heddlu Dyfed-Powys ar ffurf arall. O ran y rhai oedd wedi gofyn am wybodaeth ar ffurf arall, roedd 1.7% ohonoch (3 o bobl) wedi dweud eich bod wedi cael anawsterau â'ch cais ac wedi manylu ar yr anawsterau a gafwyd.

Roedd ychydig yn fwy nag un rhan o dair ohonoch (34.8%) yn gwybod am rif di-argyfwng unigol Heddlu Dyfed-Powys ond 16.8% yn unig oedd yn gwybod am y fenter Gwir Weledigaeth sy'n eich galluogi chi i roi gwybod yn ddienw am drosedd atgasedd. Er gwybodaeth, rhif di-argyfwng unigol Heddlu Dyfed-Powys yw **0845 330 2000** a rhif y fenter Gwir Weledigaeth er mwyn rhoi gwybod am droseddau atgasedd yw **0845 122 8645.**

Roedd 6.4% ohonoch wedi dweud eich bod wedi cael anhawster i gael mynediad i un o adeiladau Heddlu Dyfed-Powys. Cafwyd anawsterau ym Mhencadlys yr Heddlu yn Llangynnwr, Caerfyrddin, ym Mharc y Brodyr Llwyd, Caerfyrddin, ac mewn amrywiaeth o orsafoedd ledled Sir Gaerfyrddin, yn enwedig yn Rhydaman.

Pan ofynnwyd .....***'Petaech am gysylltu â Heddlu Dyfed-Powys, pa rai o'r dulliau hyn y byddech chi fwyaf tebygol o'u defnyddio'***, roeddech wedi dweud:

Trwy ffonio	73%
Yn bersonol yng ngorsaf yr heddlu	40.8%
Trwy ddeialu 999	26.7%
Trwy ddefnyddio'r rhif di-argyfwng	22.7%
Heddwas lleol / swyddog cymorth cymunedol yr Heddlu)	11.9%
Trwy lythyr / ffacs	4.2%
Trwy anfon e-bost	2.8%
Trwy fynd i wefan Heddlu Dyfed-Powys	2.6%

TROSEDDAU ATGASEDD

Y diffiniad o drosedd atgasedd yw ***'... unrhyw drosedd yn erbyn person neu eiddo, a ysgogir gan gasineb y troseddwr at bobl oherwydd y gwelir eu bod yn wahanol.'*** Roedd 29 ohonoch wedi dweud eich bod wedi dioddef trosedd atgasedd yn Sir Gaerfyrddin, ac o blith y rhain roedd 19 ohonoch wedi dweud eich bod wedi rhoi gwybod am y digwyddiad i'r Heddlu. Roedd 11 ohonoch wedi dweud nad oeddech yn fodlon ar y modd roedd yr heddwas wedi ymdrin â'r mater.

GWEITHREDU

Diolch yn fawr i chi am ymateb i'r cwestiynau am fathodyn y llu ac am y datganiad gweledigaeth. Bydd eich sylwadau yn cael eu cyflwyno a'u trafod yng nghyfarfod nesaf Grŵp Marchnata a Chyfathrebu y Llu ym mis Tachwedd 2007.

Rydym wedi rhoi'r ymatebion a gawsom gennych ynghylch adeiladau'r heddlu, gwasanaethau a gwybodaeth, i'r Uwch-reolwyr yn Rhanbarth Sir Gâr ac i'r Adran Cymunedau a Phartneriaethau, ac maent wedi cael eu nodi. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyswllt y Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl a materion mynediad cyffredinol ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys.

BWRDD IECHYD LLEOL SIR GAERFYRDDIN

GWASANAETHAU MEDDYGON TEULU

Roedd 86.3% ohonoch wedi dweud eich bod wedi mynd at eich meddyg teulu yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd ychydig yn fwy na dwy ran o dair (67.8%) ohonoch wedi dweud eich bod yn gallu cael sylw gan aelod o'ch tîm gofal cychwynnol (nyrs neu feddyg) o fewn 24 awr. Roedd 58.3% ohonoch wedi dweud eich bod yn gallu trefnu apwyntment gydag unrhyw feddyg teulu yn eich practis hyd at 2 wythnos ymlaen llaw, ac roedd ychydig yn fwy na'ch hanner chi (55.4%) yn gallu trefnu apwyntment gyda meddyg o'ch dewis o fewn 4 wythnos i'ch cais.

Yn gyffredinol roeddech yn barnu bod eich practis:



Y GWASANAETH MEDDYGON TEULU Y TU ALLAN I ORIAU

Roedd ychydig yn llai na'ch chwarter chi (21.7%) wedi dweud eich bod wedi defnyddio'r Gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau yn ystod y 12 mis diwethaf. O blith y rhai oedd wedi defnyddio'r gwasanaeth, roedd y rhan fwyaf (24.2%) yn barnu bod y gwasanaeth wedi ymdrin â'u galwad mewn modd 'da iawn'; fodd bynnag, yn dynn wrth eu sodlau oedd y rhai oedd yn barnu taw 'gweddol' (22.7%) oedd y gwasanaeth.

Yn gyffredinol roeddech yn barnu bod y Gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau:



GWASANAETH DEINTYDDOL

Roedd mwy na thri chwarter wedi dweud eich bod wedi mynd at ddeintydd yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd ychydig yn fwy nag un rhan o dair ohonoch (36.1%) wedi dweud bod gennych ddeintydd sy'n rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). O blith y rhai nad oedd ganddynt ddeintydd GIG, roedd 78.9% wedi dweud eu bod am gael un.

Yn gyffredinol roeddech yn barnu bod y gwasanaeth a gewch gan eich deintydd:



GWASANAETHAU FFERYLLOL

Roedd mwy na thri chwarter (79.7%) yr ymatebwyr wedi dweud eu bod wedi defnyddio eu fferyllydd cymunedol yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd un rhan o bump (20.5%) ohonoch wedi dweud eich bod wedi gweld gwybodaeth am ymgyrch hybu iechyd yn eich fferyllfa gymunedol, a'r ymgyrch fwyaf cofiadwy oedd 'Rhoi'r Gorau i Ysmygu'.

Overall, you rated the service provided by your community pharmacist as:



TRAFNIDIAETH

When asked which Carmarthenshire hospitals you had visited in the last 12 months, you said:



Ar y cyfan, yn ôl pob golwg nid oeddech wedi cael anhawster i deithio i'r ysbyty - heb fod yn anodd nac yn rhwydd (33%), yn rhwydd (40%), yn rhwydd iawn (18.7%). Mae'n bosibl taw'r rheswm dros hynny yw bod y rhan fwyaf ohonoch (83.4%) yn defnyddio eich cludiant eich hun i deithio i'r ysbyty. Roedd y dulliau eraill o deithio yn cynnwys cael lifft gan berthynas / cyfaill (10.2%), ambiwlans (7.3%), trafnidiaeth gyhoeddus (5.4%), Ceir Cefn Gwlad (3.2%) a'r gwasanaethau cludo cleifion (1.2%).

Roedd 14% ohonoch wedi dweud eich bod wedi teithio rhwng ysbytai yn Sir Gaerfyrddin. Unwaith eto, yn ôl pob golwg nid oeddech wedi cael anhawster i deithio o ysbyty i ysbyty - heb fod yn anodd nac yn rhwydd (37.7%), yn rhwydd (35.1%), yn rhwydd iawn (11.7%). Ac o ran y cwestiwn hwn hefyd, roedd y rhan fwyaf ohonoch wedi defnyddio eich cludiant eich hun neu wedi cael lifft gan berthynas / cyfaill i fynd o ysbyty i ysbyty.

YMATEB

Daliwch i roi eich barn i ni, er mwyn i ni barhau i wneud gwelliannau. Os hoffech gynnig sylwadau ar unrhyw agwedd benodol ar Banel Dinasyddion Sir Gâr, cysylltwch â:

Y Cydgysylltydd Ymgynghori
Polisi a Chwsmeriaid
Cyngor Sir Caerfyrddin
Neuadd y Dref
Llanelli

Ffôn: 01554 742304
E-bost: consultation@sirgar.gov.uk

Os oes angen y wybodaeth hon arnoch ar ffurf print bras neu Braille neu ar dâp sain, ffoniwch 01554 742304.

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Bwrdd Iechyd Lleol Local Health Board

PANEL DDINASYDDION SIR GAERFYRDDIN